COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 11 RHAGFYR 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| HJ David | H Griffiths | GC Haines |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | N Clarke | S J Griffiths |
| M L Hughes | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| AJ Williams | MJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod o'r Cabinet dros Adfywiad, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD ac Etholiadol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Cymunedau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi a Pherfformiad  Corfforaethol |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Ddiddordeb

Y Cynghorydd Ulberini-Williams – Eitem 4 - Personol – Trafodaeth ar Adolygu'r Ffiniau – wedi eistedd ar y Pwyllgor oedd yn datblygu'r cynigion
Y Cynghorydd AJ Williams – Eitem 4 - Personol – Llywodraethwr y Cyngor Cymuned yn Ysgol Gynradd Coety
Y Cynghorydd F D Bletsoe – Eitem 4 - Personol – Ymddiriedolwr Elusen Ddigartrefedd leol
Y Cynghorydd MJ Williams – Eitem 4 - Personol – Aelod o Gyngor Cymuned oedd wedi cymryd rhan mewn Trosglwyddo Ased Cymunedol
Y Cynghorydd Tim Thomas – Eitem 4 - Personol – Yn ymwneud â Llywodraeth Cymru ar bwnc tai a digartrefedd fel rhan o'i waith

## 176. Cymeradwyoh Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 23 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Rhagfyr 2025 |

## 177. Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025-26

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Argymhellodd y Pwyllgor ystyried sefydlu Gweithgor Trawsnewid a Newid a'i fod yn darparu diweddariadau ar gyfer y Pwyllgor yn rheolaidd ond y dylai pwerau'r Grŵp a'r Pwyllgor fod ar wahân er mwyn ei gwneud yn bosibl craffu'n iawn ar y broses. |

| | |
|---|---|
| | 2. Gan gyfeirio at Ymrwymiad WBO1.2.1 yn ymwneud â gwella coetiroedd, bu'r Pwyllgor yn trafod darnau mawr o dir comin yn y Fwrdeistref Sirol a darnau o dir a drosglwyddwyd oddi wrth y Bwrdd Glo ac **argymhellodd**:<br><br>a. y dylid cydweithio mwy â grwpiau fel Bwrdd Cadwraethwyr Walia Coety sy'n eu rheoli ac y dylid ystyried i weld a oes unrhyw lwybrau ariannu allanol y gellir eu defnyddio i'w cynorthwyo; a<br><br>b. y dylid ystyried cynnwys yn y dangosydd perfformiad hwn berfformiad unrhyw ddarnau o dir sydd wedi cael eu trosglwyddo oddi wrth y Bwrdd Glo i feddiant y Cyngor.<br><br>3. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch prosiectau cyfalaf megis Pafiliwn Mawr Porthcawl a moderneiddio ysgolion sydd wedi gorwario ac wedi eu gohirio ond bod un wedi ei raddio'n wyrdd tra bod y lleill yn goch ac yn ambr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod gwahanol gerrig milltir yn gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf unigol oedd yn ymddangos fel pe baent yn cyflwyno dull anghyson o adrodd ar berfformiad prosiectau cyfalaf ac **argymhellwyd** ystyried defnyddio dulliau cyson i asesu'r perfformiad a'r manylion a ddarperir yn y naratif.<br><br>4. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid diwygio'r pennawd, 'WBO3.4: *Moderneiddio adeiladau ysgolion'* yn y Dangosfwrdd Perfformiad i adlewyrchu'r ffaith fod y prosiectau cyfalaf sydd oddi tano yn ymwneud ag adeiladau newydd neu estyniadau.<br><br>5. Mynegodd y Pwyllgor bryder sylweddol ynghylch y targed diwedd blwyddyn o 10% ar gyfer canran y rhai sy'n gadael gofal ac wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn ac **argymhellodd** ei osod ar 0%.<br><br>6. Bu'r Pwyllgor yn trafod meysydd perfformiad sy'n dibynnu ar ddata anwadal neu nas gellir eu rhagweld megis nifer y disgyblion sy'n disgwyl am ddarpariaeth arbenigol a nifer y Plant sydd â Phrofiad o Ofal sy'n newid yn aml ac amseroldeb adrodd ar berfformiad. **Argymhellodd** y Pwyllgor ystyried y ffordd orau o gael mynediad at ddata byw a'i ddadansoddi er mwyn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Aelodau.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>7. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ymatebion a ddarparwyd i Argymhellion 1 a 2, a wnaed ganddynt yn eu cyfarfod blaenorol ar 23 Hydref 2023, a **gofynnodd** y Pwyllgor am nodyn ysgrifenedig yn egluro'r |

| | |
|---|---|
| | rhesymau pam mai dim ond yn rhannol y cawsant eu derbyn o ystyried yr ymatebion a roddwyd.<br><br>8. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y perfformiad yn erbyn WBO2.1.4 yn ymwneud â thrin cwynion corfforaethol a bod oedi neu fethiant i dderbyn gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan feysydd gwasanaeth yn ymddangos fel pe bai'n effeithio ar y gallu i ymateb i gwynion mewn ffordd amserol a **gofynnodd** am ymateb corfforaethol gan y Prif Weithredwr yn egluro sut yr eir i'r afael â hyn.<br><br>9. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ganran y Plant heb Gydymaith oedd yn Ceisio Lloches o fewn canran y Plant Profiadol o Ofal oedd wedi profi digartrefedd (CH/052).<br><br>10. **Holodd** y Pwyllgor ynghylch Gwerthusiad Cenedlaethol y Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.<br><br>11. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr amser a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a **gofynnod**d am:<br><br>a. ystyried cynnwys data canolrifol yn lle cyfartaledd, oedd yn cyflwyno ffigur chwyddedig wedi ei gamliwio gan achosion etifeddol; a<br>b. cyflwyniad ar y broses a ddefnyddir, blaenoriaethu a gwariant.<br><br>12. Bu'r Pwyllgor yn trafod adroddiad y Cwynion Corfforaethol a gyflwynwyd i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) ar 27 Tachwedd 2025 lle codwyd pryderon ynglŷn â nifer y cwynion ynghylch y contract gwastraff, y cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu cadarnhau. Rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a dywedodd fod GAC wedi gofyn am ragor o wybodaeth ond **gofynnwyd** am gyfeirio'r mater at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, Amgylchedd a Thai am wybodaeth yn y cyfamser. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Rhagfyr 2025 |

## 178. **Argymhellion gan Weithgor Cyllideb Craffu**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor yr Argymhellion gan Weithgor Cyllideb Craffu i'w hanfon ymlaen at y Cabinet i gael eu bwydo i mewn i ddatblygiad cynigion y gyllideb ddrafft a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn unol â phroses y Gweithgor Cyllideb Craffu y cytunodd y Pwyllgor arni ar 24 Gorffennaf 2025. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Rhagfyr 2025 |

## 179. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith (RhW) yn Atodiad A, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B, nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E a chydnabu'r adroddiadau Rheoleiddio a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Rhagfyr 2025 |

## 180. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Rhagfyr 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:03